# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Tedi Bach**

**Ysgol Pen Rhos**
**Heol Copperworks**
**Llanelli**
**SA15 2NG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 14 Mai 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Tedi Bach wedi'i gofrestru i gynnig gofal dydd sesiynol i uchafswm o 20 o blant. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 9.00am a 11.30am, a 12.30pm a 3.00pm. Cymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Gaerfyrddin sy'n gweithredu'r gwasanaeth, sy'n rhedeg o uned hunangynhwysol ar dir Ysgol Pen Rhos, Llanelli. Janet Jones, Davinia Harrison a Kathleen Bowen yw unigolion cyfrifol y gwasanaeth. Amy Collins, Lindy James a Kirsty Pennock yw'r personau â chyfrifoldeb. Prif iaith y gwasanaeth yw Saesneg gyda defnydd achlysurol o'r Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn fodlon eu byd, wedi setlo ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn Tedi Bach. Maent yn rhydd i archwilio a dewis y teganau a'r adnoddau y maent yn chwarae â nhw ac yn cymryd rhan mewn rhywfaint o weithgareddau a drefnwyd ymlaen llaw sy'n hyrwyddo eu datblygiad. Mae'r staff yn ofalgar tuag at y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r amgylchedd yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer y plant ac mae'r staff yn cynllunio er mwyn defnyddio'r amgylchedd yn effeithiol. Mae'r arweinwyr wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau clir i sicrhau diogelwch y plant. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn briodol, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod y broses arolygu, gwnaeth yr arweinwyr ddiweddaru eu datganiad o ddiben a hefyd cadarnhau eu bod wedi ceisio llofnod rhiant a oedd ar goll yn un o'r contractau.

### 3. Gofynion ac argymhellion

***Rydym wedi rhoi gwybod i'r unigolion cyfrifol bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rhoi gwybodaeth (rheoliad 31) ac addasrwydd y staff (rheoliad 28) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn.*** Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolion cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu, llesiant ac arwain a rheoli. Mae manylion y rhain yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael eu hannog i siarad ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ar eu syniadau. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r staff. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac yn cydweithio'n dda. Maent yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu, ac maent yn gallu dilyn eu diddordebau eu hunain a chymryd rhan mewn gweithgareddau â phwyslais. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth, er bod rhai cyfleoedd yn cael eu colli o bryd i'w gilydd.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn rhydd i chwarae a dewis eu gweithgareddau. Maent yn dewis adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn gwybod y caiff eu llais ei glywed.

Roedd y plant yn rhydd i ddewis o blith teganau ac adnoddau a oedd ar gael iddynt yn hawdd, a rhoddwyd yr adnoddau hynny nad oeddent yn hawdd cael gafael arnynt i'r plant pan ofynnwyd amdanynt. Roedd y plant a oedd wedi cynhyrfu yn gallu dal gafael ar eitemau personol nes iddynt deimlo'n fwy hyderus. Rhoddwyd dewisiadau i’r plant yn ystod gweithgareddau. Er enghraifft, pan nad oedd plentyn am dynnu llun o bry copyn, cynigwyd amrywiaeth o anifeiliaid gardd eraill iddo dynnu llun ohonynt. Yn ystod sesiynau canu, roedd y plant yn gallu dewis pa ganeuon roeddent am eu canu. Roedd y plant yn dewis p'un a oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gan gynnwys canu, dawnsio, neu fynd allan i'r awyr agored, a chefnogwyd dewisiadau'r plant. Roedd y plant yn cyfrannu at y gwaith cynllunio ambell waith. Er enghraifft, roedd y plant wedi mynegi ar bapur beth roeddent am ei ddysgu yn seiliedig ar thema 'Y Pry Copyn'.

Mae gan y plant lais cryf.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant yn dangos cysylltiadau emosiynol cadarnhaol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi setlo yn y gwasanaeth. Maent yn dangos hyder ac yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac anogaeth.

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r plant wedi setlo. Wrth iddynt gyrraedd, aeth y plant at y staff yn hyderus neu i ddewis gweithgaredd yn annibynnol. Roedd hi'n amlwg bod y plant wrth eu boddau, ac roeddent yn chwerthin ac yn sgwrsio'n aml drwy gydol y sesiwn, ac roedd rhai o'r plant yn rhyngweithio â ni'n hyderus. Roedd y plant yn dawnsio, yn neidio ac yn llawn cyffro yn gyffredinol wrth iddynt chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd y plant wedi meithrin cydberthnasau da â'r staff ac roeddent yn hyderus yn eu cwmni. Roedd y plant yn dal dwylo'r staff ac yn mynd atynt i gael sicrwydd pan oeddent yn cynhyrfu neu'n ansicr. Roedd y plant wedi dechrau datblygu cyfeillgarwch ag eraill yn y grŵp ac roeddent yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda, yn cydweithio, yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau.

Ar y cyfan, roedd y plant yn ymddwyn yn dda ac roeddent yn ymateb i ganmoliaeth yn dda. Roedd y plant yn gyfforddus yng nghwmni ei gilydd ac yn cyfathrebu'n dda wrth chwarae gyda'i gilydd. Er enghraifft, wrth liwio, roedd dau blentyn yn siarad â'i gilydd ac yn ein cynnwys ni yn y sgwrs drwy ddweud eu bod wedi dewis defnyddio du ar gyfer coesau'r pry cop; 'the same colour as your hair'. Roedd y plant yn parchu ei gilydd a mynegwyd hyn drwy eu rhyngweithio. Er enghraifft, roeddent yn gwenu ar ei gilydd ac yn llawn cyffro wrth chwarae gyda'r cerbydau neu wrth ymuno yn y canu. Roedd y plant yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau, megis bwcedi yn y pwll tywod. Wrth chwarae gyda'r toes chwarae, gwnaeth y plant rannu toes chwarae o wahanol liw â'i gilydd. Roedd y plant yn rhyngweithio'n gymdeithasol wrth fwyta eu byrbryd ac roedd hi'n amlwg eu bod yn mwynhau cwmni ei gilydd.

Roedd ymddygiad a rhyngweithio'r plant yn dda.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu â'u chwarae yn llawn. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd ac yn awyddus i rannu eu profiadau.

Cymerodd y plant ran mewn amrywiaeth o weithgareddau o'u dewis eu hunain neu rai a drefnwyd gan y staff. Roedd y plant yn annog y staff i ymuno yn y chwarae, gan gynnwys siopa yn eu siop a rowlio cerbydau yn ôl ac ymlaen. Yn ystod gweithgaredd cerddoriaeth a symud, gwelsom lawer o neidio, gwenu a chanu, gydag un plentyn yn defnyddio ysgydwr wyau wrth iddynt ganu. Roedd y plant yn llawn cyffro pan gynigodd y staff rai gweithgareddau megis chwarae yn yr awyr agored neu chwarae gyda thoes chwarae.

Mae'r plant yn frwdfrydig dros eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu a dysgu, ac maent yn gallu dilyn eu diddordebau personol.

Roedd y plant yn cymryd rhan mewn chwarae wedi'i arwain ganddynt eu hunain neu weithgareddau â phwyslais. Roedd y plant yn hyderus ac yn gofyn am help neu gefnogaeth pan fo angen; er enghraifft wrth adeiladu tŵr neu wisgo eu cotiau. Rhoddwyd cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth, er enghraifft, drwy sychu hylif a oedd wedi'i arllwys, taenu menyn ar eu tost a mynd i'r toiled. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd, yn gyffredinol, nid oedd y plant yn cael y cyfle i arllwys eu diod eu hunain ac ni chafodd rai ohonynt gyfle i weini eu bwyd eu hunain. Roedd y plant wedi eu hysgogi'n naturiol i ddewis

eu gweithgaredd eu hunain, gyda'r staff yn hybu eu chwarae drwy holi cwestiynau a chynnig awgrymiadau.

Ar y cyfan, mae'r plant yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddatblygu, dysgu a dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ofalgar tuag atynt. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth er mwyn helpu'r plant i wneud cynnydd da, ac i'w cadw'n ddiogel ac yn iach. Maent yn ymateb yn briodol i anghenion unigol y plant, wrth eu hannog i ddod yn annibynnol. Ar nifer fach o achlysuron, ni ddangoswyd y safonau uchaf o hylendid gan nifer fach o'r staff.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ystyriol o iechyd, anghenion a diogelwch y plant, ac maent yn sylwgar iawn.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, amddiffyn plant a hylendid bwyd, ac roedd tystysgrifau'n cael eu harddangos ac yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Roedd y staff yn rhoi pwyslais mawr ar ddiogelwch y plant drwy ddilyn gweithdrefnau effeithiol. Er enghraifft, roeddent yn cadw cofnodion manwl o bresenoldeb ac yn gofyn am gyfrineiriau gan aelodau o'r teulu a oedd yn casglu'r plant ar ran y rhieni. Roedd gweithdrefnau da ar waith wrth ymdrin ag ymwelwyr hefyd. Er enghraifft, gwnaeth y staff ofyn inni lofnodi'r llyfr ymwelwyr a chadarnhau ein bathodynnau adnabod cyn caniatáu inni ddod mewn. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn i'r plant fod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau gwagio'r adeilad pe bai argyfwng, ac roedd cynllun gwagio'r adeilad yn cael ei arddangos. Roedd y staff yn ymwybodol o faterion amddiffyn plant a gwnaethant ateb cwestiynau ar senarios o'r fath yn hyderus. Hefyd, roedd y staff yn sicrhau bod eu hyfforddiant yn gyfredol. Roedd y staff yn rhoi gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith yn effeithiol i leihau'r risg o groeshalogi. Er enghraifft, drwy sychu'r arwynebau â chwistrell gwrthfacterol a dilyn gweithdrefnau newid cewynnau ac arferion golchi dwylo yn gywir. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, ni wnaeth ambell aelod o'r staff olchi eu dwylo ar ôl sychu trwyn plentyn. Roedd y staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn rhagweithiol drwy ddarparu byrbrydau iachus a chytbwys, gan gynnwys llawer o ffrwythau a llysiau, a thrwy sicrhau bod y plant yn cael llawer o gyfleoedd i ymarfer corff yn ystod y dydd. Yn ogystal, roedd y staff yn darparu digon o ddiodydd addas yn ystod y sesiynau i sicrhau bod y plant yn yfed digon.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach iawn ar y cyfan.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn brofiadol ac mae'r staff mwyaf profiadol drwy annog y plant i gadw syniadaeth a rennir yn y gwasanaeth mewn cof.

Roedd y staff yn darparu gofal a chymorth da i'r plant, ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol. Roeddent yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol i hybu rhyngweithio da, ac i gyfleu eu disgwyliadau uchel i'r plant yn glir. Er enghraifft, roedd

y staff yn cyfleu negeseuon pwysig yn rheolaidd er mwyn osgoi ymddygiad negyddol gan y plant. Roeddent yn addfwyn ac yn siarad â'r plant yn garedig. Roedd hyn yn helpu i greu awyrgylch cynnes, cyfeillgar a hamddenol ac, o ganlyniad, roedd cydberthnasau cryf wedi'u meithrin rhwng y staff a'r plant.

Mae rhyngweithio'r staff yn dda.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda ac yn trefnu gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall yn glir eu hanghenion, eu galluoedd a'u dewisiadau unigol. Roedd y staff yn fodelau rôl cadarnhaol iawn ac yn annog cwrteisi. Er enghraifft, drwy atgoffa'r plant yn dawel pan roddwyd rhywbeth iddynt, *'What do we say? Thank you!'* Ar y cyfan, roedd y staff yn hyrwyddo datblygiad y plant yn effeithiol drwy sicrhau bod gweithgareddau'n gweddu'n dda i'w hoedran a'u cam datblygu. Fodd bynnag, nid oeddent yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn y gwasanaeth. Roedd y staff yn siarad Saesneg yn bennaf, ond roedd llawer ohonynt yn defnyddio Cymraeg achlysurol, ac roedd llawer ohonynt yn cyfnewid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda nifer fach o'r plant gan ddibynnu ar anghenion unigol. Roedd y staff yn gwylio'r plant i fonitro eu cynnydd ond nid oeddent yn cofnodi eu harsylwadau'n gyson nac yn eu defnyddio'n weithredol i gynllunio ar gyfer y camau datblygu nesaf. Roedd yr arweinwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol.

Mae'r staff yn effeithiol wrth hybu chwarae a dysgu'r plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae Tedi Bach yn cynnig amgylchedd diogel, sy'n briodol i blant. Mae'r ardal dan do wedi cael ei datblygu i ganiatáu i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth, ac ar y cyfan, mae adnoddau, cyfarpar a theganau ar gael iddynt. Fodd bynnag, mae angen gwaith datblygu pellach i ddiffinio'r meysydd dysgu'n well. Mae'r ardal awyr agored wedi'i gosod yn dda ac yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau sy'n briodol i oedran y plant. Mae asesiadau risg a gweithdrefnau ar waith i fonitro ansawdd y teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar, ac i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân.

Mae amgylchedd diogel ar gael i'r plant dan do ac yn yr awyr agored. Roedd staff yn gyfrifol am rolau penodol yn ystod pob sesiwn, ac yn defnyddio rhestr wirio ar gyfer yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Roedd y staff yn hyderus o ran sut i ymdrin ag unrhyw faterion a oedd yn codi, ac roedd unrhyw faterion yn cael eu nodi a'u rhannu. Roedd asesiadau risg ar waith a dywedodd yr arweinwyr wrthym fod cynlluniau ar waith i'w hadolygu yn y dyfodol agos. Roedd rota glanhau wythnosol ar waith ac roedd gan aelodau o'r staff gyfrifoldebau penodol bob dydd.

Mae gan yr arweinwyr weithdrefnau a dulliau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r safle'n darparu amgylchedd mawr, modern ac agored i'r plant.

Mae'r safle'n cynnig ardal fawr dan do ac yn yr awyr agored gyda dewis da o deganau ac adnoddau sy'n briodol i oedran y plant. Roedd yr ardal dan do yn olau, yn agored ac yn groesawgar gyda rhywfaint o waith y plant yn cael ei arddangos o gwmpas yr ystafell. Roedd ymadroddion dwyieithog a chwestiynau penagored yn cael eu harddangos ar y wal. Sefydlwyd meysydd dysgu a oedd yn gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid oedd y meysydd hyn wedi'u diffinio'n glir ac nid oedd cornel rifedd ar gael. Roedd amrywiaeth dda o adnoddau mawr a bach ar gael yn yr ardal awyr agored, ac roedd y plant yn cael cyfle i ddefnyddio'r ardal awyr agored yn ystod sesiynau. Roedd yr arweinwyr yn darparu ardal yfed lle gallaii'r plant helpu'u hunain i ddiodydd. Fodd bynnag, nid oedd y plant bob amser yn deall yn llwyr sut i gael gafael ar gwpanau glân.

Mae'r arweinwyr wedi mynd ati'n effeithiol i ddatblygu amgylchedd croesawgar, cynnes sy'n briodol i blant gyda dewis da o deganau, adnoddau a chyfarpar ar gael.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r staff a'r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn hygyrch ac mewn cyflwr da.

Roedd amrywiaeth dda o adnoddau a theganau ar gael, gan gynnwys blociau, deinosoriaid, trenau, posau jig-so, adnoddau chwarae rôl gan gynnwys bwrdd smwddio, tegell a bwyd a theganau adeiladu. Roedd y teganau a'r adnoddau o ansawdd da, yn lân ac mewn cyflwr da. Roeddent yn cael eu storio mewn cypyrddau neu mewn blychau wedi'i labelu. Serch hynny, nid oedd pob blwch wedi'i labelu. Roedd dewis mawr o adnoddau awyr agored o ansawdd da, ac roedd rhai ohonynt yn cael eu storio yn y sied, gan gynnwys beiciau, dillad tywydd gwlyb, neu'n cael eu gorchuddio pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Er enghraifft, roedd gorchudd cadarn, pwrpasol ar y pwll tywod pren.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar sydd ar gael i'r plant o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol ac yn meithrin cydberthnasau effeithiol â'r rhieni. Maent wedi recriwtio staff addas a chymwys i ofalu am y plant, y mae rhai ohonynt yn aelodau hirsefydog ac wedi bod yn gweithio i'r cwmni ers blynyddoedd lawer. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn briodol ar y cyfan, ond mae angen datblygu'r broses oruchwylio unigol.  Mae'r arweinwyr yn datblygu eu prosesau hunanwerthuso. Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r hyn a ddarperir yn gywir.

Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol.  Er enghraifft, yn dilyn yr arolygiad, gwnaethant ddiweddaru eu datganiad o ddiben ar unwaith. Roedd y polisïau ar gael, ac yn cael eu hadolygu a'u rhannu â'r rhieni. Mae'r gwasanaeth wedi cyflogi staff newydd ond nid oeddent wedi rhoi gwybod inni am hynny. Edrychwyd ar sampl o ffurflenni cofrestru plant a chontractau a gwelsom eu bod yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol a ffurflenni caniatâd gan y rhieni. Fodd bynnag, nid oedd un contract yn cynnwys llofnod rhiant ar ddiwrnod yr arolygiad, ond unionwyd hyn erbyn y bore canlynol. Roedd gan yr arweinwyr system ar waith i storio'r holl waith papur cyfrinachol mewn cypyrddau dan glo yn y gwasanaeth neu yn y brif swyddfa.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Roedd person â chyfrifoldeb newydd wedi'i chyflogi, a dangosodd agwedd ragweithiol a myfyriol tuag at adolygu a gwella parhaus.

Roedd yr arweinwyr yn ceisio gwella eu gwasanaeth yn barhaus. Ers cofrestru, roedd yr arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd i wella darpariaeth y gwasanaeth ymhellach ac wedi cyflogi staff newydd gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion ieithyddol y plant a'r rhieni. Roedd yr arweinwyr wrthi'n paratoi holiaduron ac yn ystyried ffyrdd o gwblhau'r adolygiad o ansawdd y gofal. Roedd yr arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i gwblhau adroddiad ac adolygiad o ansawdd y gofal erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu.

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn cael ei ddatblygu.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cadw at gymarebau staffio neu'n rhagori arnynt, er mwyn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda. Nid yw'r arweinwyr yn darparu sesiynau goruchwylio unigol, rheolaidd i drafod arferion y staff.

Roedd yr arweinwyr wedi cynnal arfarniadau sylfaenol â'r staff, y rhai diweddaraf mis Hydref 2018. Roedd cofnodion yn ffeiliau'r staff yn dangos nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael budd o sesiynau goruchwylio unigol i drafod arferion a chynnydd gyda'r arweinwyr. Fodd bynnag, dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn cynnal cyfarfodydd arweinwyr misol bob chwe wythnos, a chawsom gopi o gofnodion cyfarfod y staff a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018 fel tystiolaeth. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr arweinwyr wedi cynnal gwiriadau cadarn ar y staff yn gyffredinol cyn iddynt ddechrau gweithio, er bod ffeil un aelod o'r staff yn cynnwys un geirda yn lle dau, fel sy'n ofynnol. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn gyfredol ac yn dangos bod y staff wedi cael eu hannog i ddatblygu'n broffesiynol drwy hyfforddiant. Roedd rhai aelodau o'r staff wedi bod yn gweithio i'r sefydliad ers amser hir, a dywedon nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan yr arweinwyr a'u bod yn mwynhau eu rolau.

At ei gilydd, mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau yn briodol.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn annog cyfranogiad y rhieni/gofalwyr er mwyn iddynt fod yn rhan o ofal a datblygiad eu plentyn ac er mwyn helpu i feithrin cysylltiadau da.

Roedd y staff wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni. Roedd trafodaeth hwyliog rhwng y rhieni a'r staff. Roedd y staff yn rhoi adborth i'r rhieni ar lafar bob dydd, ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r rhieni os bu unrhyw broblemau yn ddiweddar. Dywedodd rhiant wrthym ei fod yn hapus iawn â'r gwasanaeth. Roedd yn teimlo bod y staff yn hawdd mynd atynt a'i fod yn cwrdd â nhw i drafod cynnydd ei blentyn. Roedd yr arweinwyr hefyd yn gweithio'n agos gyda'r fenter Dechrau'n Deg, yr ymwelwyr iechyd a'r ysgol. Er enghraifft, roedd y plant yn gallu ymweld â'r ysgol gyda'r staff cyn iddynt ddechrau yno.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a rhanddeiliaid eraill.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Arolygiad ar ôl cofrestru oedd hwn.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y dylai'r arweinwyr wneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn golchi eu dwylo bob tro ar ôl sychu trwynau'r plant;
- datblygu'r meysydd dysgu a'u diffinio'n well;
- labelu pob blwch;
- datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach;
- sicrhau bod y plant yn gwybod ble mae'r cwpanau glân a'r cwpanau sydd wedi cael eu defnyddio yn cael eu cadw yn yr ardal yfed;
- gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cyfarfodydd goruchwylio'r staff;
- sicrhau bod pob aelod o'r staff yn rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu ei annibyniaeth yn ystod amser byrbryd;
- sicrhau bod cofnodion goruchwylio'n cael eu diweddaru'n rheolaidd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

- Ymwelodd dau arolygydd â'r cartref yn ddirybudd ar 6 Mawrth 2019 am gyfanswm o bum awr;
- gwnaethom siarad â'r plant, y staff, y person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol;
- gwnaethom ddefnyddio'r adnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI) 2, er mwyn nodi tystiolaeth o'r ffordd roedd y plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- gwnaethom roi holiaduron i'r staff a'r rhieni; a
- gwnaethom edrych ar sampl o ddogfennaeth a pholisïau, gan gynnwys ffeiliau'r staff, cofrestrau, cofnodion datblygu'r plant, datganiad o ddiben ac adroddiad adolygu ansawdd y gofal y gwasanaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Kathleen Bowen**<br>**Janet Jones**<br>**Davinia Harrison** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Lindy James**<br>**Amy Collins**<br>**Kirsty Pennock** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-3 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol yn unig**<br>**9.00am-11.30pm**<br>**12.30am-3.00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad ar ôl cofrestru** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **6 Mawrth 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |